

Rhif: WG43281



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad - Crynodeb o'r ymatebion

### Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Medi 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

# Cynnwys

Tabl acronymau .....	3
Rhestr o'r ffigurau .....	3
Cyflwyniad .....	4
Ynglŷn â'r ymgynghoriad .....	4
Methodoleg .....	4
Adrodd ar y canfyddiadau .....	5
Crynodeb o'r themâu trosfwaol .....	6
Cwestiwn 1 .....	7
Cwestiwn 2 .....	9
Cwestiwn 3 .....	12
Cwestiwn 4 .....	15
Cwestiwn 5 .....	19
Cwestiwn 6 .....	21
Cwestiwn 7 .....	22
Cwestiwn 8 .....	24
Cwestiwn 9 .....	26

## Tabl acronymau

Acronym	Fersiwn llawn
AGA	Addysg Gychwynnol i Athrawon
CSCA	Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydych chi'n cytuno â'r angen i adolygu'r polisi sy'n ymwneud â chategorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg?'	7
Ffigur 2. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydy'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?'	9
Ffigur 3. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydyn ni'n cyflawni ein nod polisi o gyflwyno categorïau ar gyfer ysgolion sy'n fwy eglur ar gyfer: (a) rhieni/gofalwyr? (b) awdurdodau lleol? (c) ysgolion?'	12
Ffigur 4. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydych chi'n cytuno â'r defnydd o rifau i gategoreiddio?'	15
Ffigur 5. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â chael llai o gategorigau ond disgrifiadau ehangach?'	16
Ffigur 6. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â rhoi mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol i bob categori?'	16
Ffigur 7. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â chyflwyno is-gategorigau i hwyluso cyfnod trosiannol?'	17
Ffigur 8. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â: chyflwyno is-gategorigau i hwyluso cyfnod trosiannol?'	18
Ffigur 9. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Wrth gyfeirio at ganrannau yn y categorïau uwchradd, a ddylem gynnwys: (a) canran isafswm yn unig? (b) ystod canran isafswm ac uchafswm?'	19
Ffigur 10. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A oes angen i ni gyhoeddi canllawiau ychwanegol wedi'u teilwra tuag at grwpiau penodol, er enghraifft ysgolion a rhieni/gofalwyr yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau hyn yn derfynol?'	21

# Cyflwyniad

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar *Gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad, ac yn nodi'r negeseuon a'r themâu allweddol a gyflwynir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ddogfen ganllaw anstatudol, sydd â'r nod o:

- gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol;
- darparu fframwaith cenedlaethol clir a chyson ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gyfathrebu i rieni/gofalwyr y mathau o ysgolion a darpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 14 Rhagfyr 2020 a daeth i ben ar 26 Mawrth 2021. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yma:

<https://llyw.cymru/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 103 o ymatebion unigryw i'r ymgynghoriad hwn:

- cyflwynwyd 73 drwy'r ymgynghoriad ar-lein;
- cyflwynwyd 30 drwy e-bost (nid oedd wyth o'r ymatebion hyn yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol);
  - Nid oedd yr wyth ymateb hyn yn cynnwys atebion i'r cwestiynau caeedig, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad meintiol yn yr adroddiad hwn. Adolygwyd yr ymatebion ansoddol, a neilltuwyd dyfyniadau o'r rhain i'r cwestiynau unigol yr oeddent yn fwyaf perthnasol iddynt ac yna'u dadansoddi ochr yn ochr â'r ymatebion eraill.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru ymatebion hefyd drwy ddwy ymgyrch:

- cyflwynwyd 225 o ymatebion a oedd yn union yr un fath drwy un ymgyrch;
- cyflwynwyd dau ymateb a oedd yn union yr un fath drwy ymgyrch arall.

Mae'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r ddwy ymgyrch uchod wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad fel dau ymateb unigol, un ar gyfer pob ymgyrch.

Mae'n bwysig nodi na wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn caeedig neu agored. Mae niferoedd yr ymatebwyr wedi'u cynnwys ochr yn ochr â phob cwestiwn yn yr adroddiad hwn.

## Methodoleg

Dadansoddwyd y data meintiol (h.y. data'n seiliedig ar gwestiynau caeedig) o'r ymatebion a oedd yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion meintiol hyn i gwestiynau 1-6 o'r ymgynghoriad yn cynnwys atebion cadarnhaol, negyddol neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' / 'ddim yn siŵr'. Mae siart sy'n dangos yr ymatebion i bob cwestiwn caeedig wedi'i chynnwys ar ddechrau'r dadansoddiad ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r data ansoddol (data'n seiliedig ar gwestiynau penagored) yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn y dadansoddiad thematig categoreiddiwyd barn, sylwadau, datganiadau a'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn themâu troswaol. Nod y dadansoddiad oedd nodi'r themâu a oedd yn codi amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y broses ar gyfer cynnal y dadansoddiad hwn fel a ganlyn:

1. Adolygwyd sampl ar hap o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn gan ddau ymchwilydd (pob un yn adolygu hanner gwahanol o'r sampl). Penderfynwyd ar faint y sampl yn ôl nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn ac roedd yn cynnwys o leiaf 30 y cant o gyfanswm yr ymatebion fesul cwestiwn.
2. Cafodd yr ymatebion yn y sampl eu codio'n thematig gan y ddau ymchwilydd, i nodi'r themâu a oedd yn codi amlaf. Cymharodd yr ymchwilydd y themâu a nodwyd a chytunwyd ar set o godau i'w defnyddio ar gyfer yr ymatebion sy'n weddill.
3. Yna adolygodd un o'r ymchwilydd yr holl ymatebion sy'n weddill i bob cwestiwn er mwyn gwirio bod y themâu a nodwyd yng Ngham 2 yn parhau i fod yn berthnasol.
4. Sicrhaodd y broses hon bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hadolygu yn ystod y dadansoddiad.

### *Cyfyngiadau'r fethodoleg*

Mae'r ymatebion a ddaeth i law yn dangos barn yr ymatebwyr hynny a ddewisodd lenwi holiadur yr ymgynghoriad. Mae hyn yn golygu na ellir ystyried bod yr ymatebion yn gynrychioliadol o'r boblogaeth yn gyffredinol, na'r rhanddeiliaid y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt (e.e. ysgolion, rhieni).

Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r themâu sy'n dod i'r amlwg amlaf yn y sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr, gan gynnwys eu sylwadau ar themâu na ofynnwyd cwestiynau uniongyrchol amdanynt. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r themâu a nodwyd yn y dadansoddiad yn mynd y tu hwnt i gwmpas y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad.

### **Adrodd ar y canfyddiadau**

Felly, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno themâu allweddol sy'n codi'n aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r themâu hyn yn seiliedig ar gyfoeth o dystiolaeth a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. **Yn yr adroddiad drwyddo draw mae'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir yn deillio o sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt yn cynrychioli barn awduron yr adroddiad.**

Hwnt ac yma drwy'r adroddiad mae detholiad o ddyfyniadau i ddangos y pwyntiau a'r themâu a godwyd.

# Crynodeb o'r themâu trosfwaol

Mae'r adran gychwynnol hon yn cyflwyno themâu trosfwaol a gododd yn gyson drwy'r ymgynghoriad cyfan. Er bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar wahanol elfennau o'r cynigion, nododd y dadansoddiad themâu trosfwaol neu gyson a godwyd mewn sawl cwestiwn a/neu a ailadroddwyd ar sawl achlysur gan yr ymatebwyr.

- Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i gytuno â'r angen i adolygu'r polisi categoreiddio ysgolion a chyda'r egwyddorion sy'n sail i'r cynigion. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno â'r cynigion yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion cynradd o gymharu â'r cynigion sy'n ymwneud ag ysgolion uwchradd. Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch cynnwys categorïau trosiannol ar gyfer ysgolion cynradd, ond mynegwyd ystod o safbwyntiau ar y categorïau a'r trothwyon manwl a gynigiwyd.<sup>1</sup>
- Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o godi pryderon mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer ysgolion uwchradd, yn enwedig mewn perthynas ag ehangder y categorïau. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y categorïau arfaethedig yn rhy eang ac yn teimlo bod rhai ohonynt yn cwmpasu ystod ehangach o ysgolion nag sy'n briodol i'w cynnwys mewn un categori. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y categori 3 arfaethedig ar gyfer ysgolion uwchradd, ond codwyd materion hefyd yn ymwneud â chategorïau eraill. Roedd pryderon ymhlith yr ymatebwyr y gallai'r cynigion ar gyfer ysgolion uwchradd categori 3 gymell rhai ysgolion (yn bennaf y rhai sydd â chyfran uchel o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg) i leihau'r ddarpariaeth hon, neu gyfyngu ar eu huchelgais i'w chynyddu.
- Roedd cryfhau'r cynigion yn flaenoriaeth i rai ymatebwyr, a oedd yn teimlo y dylai'r polisi fod yn fwy uchelgeisiol a darparu mwy o gymhellion i ysgolion gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y maent yn ei chynnig. Awgrymodd yr ymatebwyr enghreifftiau o sut y gellid cyflawni hyn, megis gosod targedau mwy uchelgeisiol, creu categori ychwanegol ar gyfer ysgolion sy'n cynnig cyfrannau uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddarparu mwy o gefnogaeth ac adnoddau i ysgolion trosiannol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod alinio'r cynigion â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn bwysig er mwyn helpu i gyrraedd y nodau a bennir yn *Cymraeg 2050*.<sup>2</sup> Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r cynigion fod yn statudol ac y dylent gynnwys cyfeiriad at ystyriaethau ehangach gan gynnwys ethos ysgolion mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Nododd yr ymatebwyr yr angen am fwy o fanylion er mwyn gwerthuso'r cynigion yn llawn. Roedd hyn yn cynnwys manylion am yr amserlenni (yn enwedig mewn perthynas â'r amser a dreulir o fewn categorïau trosiannol), deilliannau ieithyddol, trefniadau monitro, cyllid a natur y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i'w helpu i symud rhwng categorïau. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cynnal hyblygrwydd er mwyn ystyried amrywiaeth ym mhroffil ieithyddol cymunedau mewn gwahanol ranbarthau.

---

<sup>1</sup> Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cynigion ar gyfer trothwyon categorïau yn seiliedig ar ganran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.


<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

# Cwestiwn 1

A ydych chi'n cytuno â'r angen i adolygu'r polisi sy'n ymwneud â chategorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg?

Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (64 o blith 96, neu 67 y cant) yn cytuno â'r angen i adolygu'r polisi sy'n ymwneud â chategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg gydag ychydig dros chwarter (26 o blith 96, neu 27 y cant) yn anghytuno a 6 o blith 96 yn dweud nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

*Ffigur 1: Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydych chi'n cytuno â'r angen i adolygu'r polisi sy'n ymwneud â chategorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg?'*



N=96

Cyflwynodd cyfanswm o 54 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nodir y themâu mwyaf cyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion hyn isod.

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â'r angen i adolygu'r polisi, cydnabuwyd bod angen symleiddio'r categorïau er mwyn eu gwneud yn gliriach. Ystyriwyd bod y categorïau cyfredol yn rhy gymhleth ac y dylid eu symleiddio, yn enwedig i rieni. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod y categorïau cyfredol yn cael eu defnyddio mewn ffordd anghyson ac y byddent yn croesawu mwy o safoni o ran y polisi a'i weithrediad.

*'Ar hyn o bryd, mae'r categorïau ysgolion ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn amwys ac yn anodd eu deall. Nid ydynt yn cefnogi rhieni'n ddigonol i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â thaith ieithyddol llwybr addysgol eu plentyn.'*

Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r categorïau ysgolion gyd-fynd â CSCA, strategaeth Cymraeg 2050 a'r Cwricwlwm i Gymru. Roeddent yn teimlo ei bod yn amserol adolygu'r polisi ar yr un pryd ag y mae'r CSCA yn cael eu hadolygu a'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddylunio.

*'Mae'r system bresennol yn cwmpasu llawer o gategorïau (yn enwedig yn yr uwchradd) - gan estyn cyfle i ysgolion ddehongli gofynion a disgwyliadau'n reit lydan. Mae'n amserol felly i ail-gloriannu'r hyn sydd yn addas ar gyfer diben y dyfodol.'*

Mynegodd rhai ymatebwyr eu bod yn cytuno'n gyffredinol â'r angen i adolygu'r polisi ac aeth eraill ymlaen i wneud sylwadau manylach ar y cynigion eu hunain, gan nodi y byddai angen iddynt weld manylion pellach cyn ffurfio barn ar y polisi. Teimlai rhai nad oedd y cynigion yn ddigon uchelgeisiol a mynegwyd awydd i gynnwys mesurau cryfach yn y polisi. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o adnoddau i ysgolion gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y maent yn ei chynnig. Roedd rhai yn teimlo bod angen canolbwyntio mwy ar faterion ehangach yn ymwneud â pholisi addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys mwy o

ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a mwy o ffocws ar lafaredd yn y Gymraeg.

Ymhlith y lleiafrif a atebodd 'nac ydw' i'r cwestiwn, cafwyd sylwadau a oedd yn mynegi'r farn nad oedd adolygu'r polisi yn flaenoriaeth ar hyn o bryd neu a oedd yn anghytuno'n gyffredinol â'r cynigion. Gwnaeth rhai sylwadau ar risg ganfyddedig yn ymwneud â gorsymleiddio'r polisi a chategorïau ysgolion. Roedd ambell un yn teimlo bod y polisi mewn perygl o leihau'r dewis sydd ar gael i rieni a oedd am ddewis addysg cyfrwng Saesneg i'w plant. Mynegodd eraill farn negyddol ar addysg cyfrwng Cymraeg a pholisïau'n ymwneud â'r Gymraeg yn fwy cyffredinol.




## Cwestiwn 2

A ydy'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

'Nac ydyn' oedd ymateb dros draean o'r ymatebwyr (36 o blith 93 neu 39 y cant) pan ofynnwyd a yw'r newidiadau a gynigiwyd yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg; 'ydyn' oedd ymateb traean o'r ymatebwyr (31 o blith 93, neu 33 y cant), a dywedodd ychydig dros chwarter (26 o blith 93 neu 28 y cant) nad oeddent yn siŵr.

*Ffigur 2. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydy'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?'*



Cyflwynodd cyfanswm o 56 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nodir y themâu mwyaf cyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion hyn isod.

Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn ddigon uchelgeisiol ac y dylid eu cryfhau i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd ysgolion yn cynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a thrwy hynny 'symud ar hyd y continwmm ieithyddol'. Codwyd hyn mewn perthynas â chategoriâu cynradd ac uwchradd. Teimlai ambell ymatebydd y dylid cryfhau un o 'egwyddorion craidd' y polisi, sef na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg nag a gynigiwyd yn y gorffennol.

*'Dylid cryfhau'r egwyddor o beidio symud yn ôl, fel ei fod yn ei wneud yn glir mai'r disgwyliad yw na fydd ysgolion yn cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol, naill ai drwy symud categori neu leihau ei darpariaeth oddi fewn ystod ei chategori presennol.'*

Teimlai'r ymatebwyr nad oedd y cynigion yn darparu cymhellion i ysgolion gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gydag ambell un yn awgrymu y dylid cynnig mwy o gymhellion i ysgolion wneud hynny. Rhoddodd ambell ymatebydd enghreifftiau o gymhellion megis:

- gosod targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer ysgolion;
- creu categori ychwanegol ar gyfer ysgolion sy'n cynnig canran uwch (e.e. dros 80 y cant) o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg;
- darparu adnoddau ychwanegol i ysgolion i'w cefnogi i gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

*'Byddai'r canllawiau'n elwa o weld y cymhellion i ysgolion symud ar hyd y continwmm yn cael eu hegluro a'u gwneud yn fwy eglur.'*

Disgrifiodd yr ymatebwyr y categorïau arfaethedig a'r trothwyon cysylltiedig fel 'rhy eang', ac roeddent yn teimlo nad oedd hyn yn adlewyrchu'n ddigonol yr amrywiaeth o ddarpariaeth mewn gwahanol ranbarthau. Darparodd yr ymatebwyr enghreifftiau i egluro sut y gallai'r categorïau arfaethedig, yn eu barn nhw, gymell rhai ysgolion i leihau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd yr ymatebwyr amlaf at y mater hwn mewn perthynas â chategori 3 yn y sector uwchradd, gan nodi y gallai rhai ysgolion sydd ar hyn o bryd yn darparu 80-100 y cant o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu datgymell i gynyddu neu gynnal lefelau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

*'Byddai'r cynnig i gyflwyno 70% o'r cwricwlwm i 70% o'r disgyblion yn gwanhau a thanseilio addysg Gymraeg, a byddai'n gerbyd i rhai ysgolion, sydd eisoes yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, i lithro yn ôl. Cam gwag fyddai gweithredu'r diffiniad hwn fel y saif ar hyn o bryd.'*

Codwyd yr angen am adnoddau ychwanegol i gefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg gan ymatebwyr a oedd yn teimlo na fyddai'r newidiadau a gynigiwyd yn ddigonol ar eu pen eu hunain. Cyfeiriwyd at ragor o gyllid ac argaeledd hyfforddiant ar gyfer y gweithlu mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg fel enghreifftiau o ffactorau a allai ddylanwadu ar y tebygolrwydd y byddai ysgolion yn cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Nododd yr ymatebwyr fod angen darparu mwy o wybodaeth am y newidiadau, gyda rhai yn mynegi awydd am fwy o arweiniad ochr yn ochr â'r cynigion. Teimlai rhai y dylid canolbwyntio mwy ar ddeilliannau ieithyddol yn y polisi, a mynegodd eraill awydd i'r cynigion ganolbwyntio mwy ar ethos Gymraeg ysgolion a pholisïau ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

*'Ni roddir unrhyw ystyriaeth i ethos a diwylliant ysgol. Gall dwy ysgol fod o fewn yr un categori yn yr un sir ond oherwydd ethos cryfach sydd yn cynnal yr iaith mewn nifer o wahanol beuoedd, [gallai un fod yn] yn cynhyrchu mwy o siaradwyr yn y pendraw.'*

Mynegodd rhai ymatebwyr eu cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion, yn enwedig y rhai ar gyfer ysgolion cynradd. Croesawodd yr ymatebwyr y ffaith bod yr is-gategorïau trosiannol wedi'u cynnwys a'r cynnig y dylai o leiaf 10 y cant o'r cwricwlwm gael ei addysgu mewn ysgolion categori 1.<sup>3</sup> Nododd ambell ymatebydd o blith y rhain fod y cynigion yn cyd-fynd â'u CSCA.

*'Rydym yn croesawu'r bwriad o gyflwyno 10% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg, sy'n gam ymlaen o'r sefyllfa bresennol o ddysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig.'*

Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno'n gyffredinol â'r cynigion gan nodi na ddylai'r newidiadau, yn eu barn hwy, fod yn flaenoriaeth. Roedd ambell un o'r ymatebwyr hyn yn anghytuno â'r cynigion oherwydd eu bod yn teimlo y gallai'r newidiadau roi pwysau ychwanegol ar ysgolion.

*'Rwy'n poeni mwy am sicrhau bod disgyblion yn dychwelyd yn ddiogel, i hyd yn oed ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.'*

Rhybuddiodd ymatebwyr eraill a oedd yn anghytuno â'r cynigion fod y cynigion mewn perygl o orsymleiddio'r polisi categoreiddio ysgolion ac nad oedd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r amrywiaeth o fodelau darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.

---

<sup>3</sup> Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys is-gategorïau trosiannol a ddisgrifir fel 'categorïau pontio' sy'n galluogi ysgolion i fod yn hyblyg wrth iddynt gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a symud rhwng categorïau.

*'Mae'n deg cydnabod bod un ffit ar draws Cymru yn mynd i fod yn anodd ei gyrraedd ond gellir dadlau nid yw'r model arfaethedig yma'n mynd i'r afael â'r gwahaniaethau sydd yn bodoli ar hyn o bryd yn ddigonol.'*

## Cwestiwn 3


A ydyn ni'n cyflawni ein nod polisi o gyflwyno categorïau ar gyfer ysgolion sy'n fwy eglur ar gyfer:

- (a) rhieni/gofalwyr?
- (b) awdurdodau lleol?
- (c) ysgolion?

Pan ofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r nod polisi o gyflwyno categorïau ysgolion sy'n fwy eglur ar gyfer gwahanol grwpiau, roedd barn yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- Ar gyfer rhieni/gofalwyr:
  - 'Nac ydych' oedd ateb tua hanner yr ymatebwyr (47 o blith 95 neu 49 y cant);
  - 'Ydych' oedd ateb chwarter yr ymatebwyr (27 o blith 95 neu 28 y cant)
  - Dywedodd tuag un rhan o bump nad oeddent yn siŵr (21 o blith 95 neu 22 y cant)
- Ar gyfer awdurdodau lleol?
  - 'Nac ydych' oedd ateb tua hanner yr ymatebwyr (45 o blith 95 neu 47 y cant);
  - 'Ydych' oedd ateb tua thraean yr ymatebwyr (29 o blith 95 neu 31 y cant);
  - Dywedodd tuag un rhan o bump nad oeddent yn siŵr (21 o blith 95 neu 22 y cant).
- Ar gyfer ysgolion:
  - 'Nac ydych' oedd ateb tua hanner yr ymatebwyr (52 o blith 95 neu 55 y cant);
  - 'Ydych' oedd ateb tua chwarter yr ymatebwyr (26 o blith 95 neu 27 y cant);
  - Dywedodd tuag un rhan o bump nad oeddent yn siŵr (17 o blith 95 neu 18 y cant).

Ffigur 3. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydyn ni'n cyflawni ein nod polisi o gyflwyno categorïau ar gyfer ysgolion sy'n fwy eglur ar gyfer: (a) rhieni/gofalwyr? (b) awdurdodau lleol? (c) ysgolion?'



N=95

Cyflwynodd cyfanswm o 43 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nodir y themâu mwyaf cyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion hyn isod.

Mynegodd yr ymatebwyr bryder bod y categorïau arfaethedig yn rhy eang ac nad oes digon o fanylion ynddynt i rieni / gofalwyr, awdurdodau lleol ac ysgolion. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r categorïau arfaethedig yn darparu digon o eglurder ynghylch natur y ddarpariaeth a'r deilliannau ieithyddol disgwylidig mewn ysgolion ac, ar y gwaethaf, yn camarwain rhieni/gofalwyr, awdurdodau lleol ac ysgolion. Mynegwyd pryder y byddai ysgolion sy'n cynnig cyfrannau gwahanol iawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu rhoi yn yr un categori.

Mewn ambell achos, eglurodd yr ymatebwyr fod y pryderon hyn wedi'u hanelu'n benodol at y categorïau arfaethedig ar gyfer ysgolion uwchradd, yn hytrach na'r categorïau ar gyfer ysgolion cynradd. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y categorïau arfaethedig ar gyfer ysgolion cynradd yn glir i rieni/gofalwyr, awdurdodau lleol ac ysgolion. Fodd bynnag, ni wnaeth pob ymatebydd egluro a oedd eu pryderon yn cyfeirio at y cynigion yn ymwneud ag ysgolion cynradd ynteu uwchradd.

Darparwyd enghreifftiau gan yr ymatebwyr o'r math o fanylion a fyddai'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y categorïau'n glir i rieni / gofalwyr, awdurdodau lleol ac ysgolion. Er enghraifft, dylid darparu manylion ar gyfrwng iaith mewnbynnau addysgu a dysgu ac mae angen ymhelaethu ymhellach ar y deilliannau ieithyddol disgwylidig, yn enwedig lle byddai'r deilliannau ieithyddol yn amrywio o fewn categori yn dibynnu ar yr union ddarpariaeth y bydd pob disgybl yn manteisio arni.

Ar y llaw arall, mynegodd rhai ymatebwyr farn fwy cadarnhaol ynghylch y categorïau arfaethedig, gan nodi manteision posibl egluro'r sefyllfa i'r rhanddeiliaid allweddol. Roeddent yn teimlo bod y categorïau arfaethedig yn dod ag eglurder i'r system ac yn ei gwneud yn haws i rieni/gofalwyr, awdurdodau lleol ac ysgolion ddeall deilliannau ieithyddol disgwylidig. Nododd ambell ymatebydd fod y categorïau arfaethedig yn gliriach na'r system gyfredol ac yn gam cadarnhaol ymlaen.

*'Mae'r ffaith bod canran y cwricwlwm yn y sector cynradd sy'n cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi, er enghraifft 80%, yn ddefnyddiol ac fwy eglur. Mae hyn yn caniatáu i arweinwyr a chyrrff llywodraethu gynllunio, datblygu a monitro'r ddarpariaeth yn effeithiol. Yn y sector uwchradd, mae'r model yn seiliedig ar fewnbwn ac allbwn sydd eto'n rhoi'r un disgwyliadau ar arweinwyr a chyrrff llywodraethu i sicrhau bod y targedau meintiol yn cael eu cyflawni a'u dilyn ym mholisi iaith pob ysgol.'*

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at ystyriaethau allweddol ar gyfer gweithredu'r drefn gategoreiddio arfaethedig yn effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn dehongli'r categorïau mewn ffordd gyson;
- sefydlu systemau monitro a fydd yn sicrhau safoni ledled Cymru;
- ystyried amserlenni priodol ar gyfer symud drwy gategoreiddio trosiannol;
- ystyried yr adnoddau sydd eu hangen.

Hefyd, cyflwynodd rhai ymatebwyr syniadau ar sut i egluro'r dull arfaethedig ymhellach, er enghraifft darparu enghraifft ym mhob categori neu ddatblygu canllaw hawdd ei ddefnyddio i rieni / gofalwyr (gweler cwestiwn 6 hefyd).

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd na fyddai'r categorïau arfaethedig yn creu sylfaen gadarn ar gyfer parhad ieithyddol rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd ac nad ydynt yn ddigon uchelgeisiol o ran annog addysg cyfrwng Cymraeg. Tynnwyd sylw at risg y gallai ysgolion ddychwelyd at gynnyg llai o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac nad yw'r cynigion cyfredol yn cefnogi'r amcanion cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ddigonol.

*'Bydd y categorïau mor eang nes bod yn gamarweiniol i rieni, yn tansellio strategaethau Awdurdodau Lleol i symud ysgolion ar hyd llwybr tuag at addysg Gymraeg, a'r categorïau mor eang nes gadael ysgolion i gael hyd i'w llwybr eu hunain yn unol â'r sefyllfa cyn y 1980au.'*

Codwyd pryderon ynghylch y categori arfaethedig ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (categori 3) hefyd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr, er gwaethaf y rhesymeg a nodir yn y dogfennau ar gyfer diffiniad o'r categori, y byddai'r categori fel y'i diffinnir ar hyn o bryd yn gwanhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y pryderon hyn yn seiliedig yn bennaf ar y trothwy canran isafswm arfaethedig ar gyfer y categori hwn a'r ystod eang o ysgolion a fyddai'n cael eu cynnwys o ganlyniad i hynny, gan wneud deilliannau ieithyddol yn aneglur a chaniatáu i ysgolion (yn enwedig y rhai â chanran uchel o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg) leihau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ond aros yng nghategori 3.

Tynnodd ambell un sylw at elfennau penodol y categorïau arfaethedig yr oeddent yn teimlo y byddai'n anodd i randdeiliaid eu deall. Er enghraifft, ystyriwyd bod categorïau trosiannol a'r cysyniad o ysgolion mewn dau gategori gwahanol yn anodd i rieni eu deall, ac roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai angen esboniad pellach o'r elfennau hyn ar rieni.

Yn ogystal, manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle hwn i ddatgan eu gwrthwynebiad i gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith a/neu i ddweud bod materion eraill, yn eu barn nhw, yn fwy o flaenoriaeth na'r polisi hwn.

## Cwestiwn 4

A ydych chi'n cytuno:


- (a) â'r defnydd o rifau i gategoreiddio?
- (b) â chael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach?
- (c) â rhoi mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol i bob categori?
- (d) â chyflwyno is-gategorïau i hwyluso cyfnod trosiannol?
- (e) â'r dull o wahaniaethu rhwng categorïau darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd

Cyflwynodd cyfanswm o 50 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ond ni roddodd pawb o'r rhain sylwadau ar bob un o elfennau'r cwestiwn (a - e). Nodir y themâu mwyaf cyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion hyn isod.

### A) Y defnydd o rifau i gategoreiddio

Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (39 o blith 95 neu 41 y cant) yn anghytuno â'r defnydd o rifau i gategoreiddio, roedd ychydig dros draean (34 o blith 95 neu 36 y cant) yn cytuno a nododd ychydig yn llai na chwarter (22 o blith 95 neu 23 y cant) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Ffigur 4. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A ydych chi'n cytuno â'r defnydd o rifau i gategoreiddio?'



Cyflwynodd cyfanswm o 20 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â defnyddio rhifau i gategoreiddio.


Dyweddodd yr ymatebwyr yn bennaf eu bod yn teimlo y dylid gwrthdroi'r rhifau arfaethedig ar gyfer categorïau er mwyn sicrhau cysondeb â'r system bresennol ac oherwydd y dylid ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel y categori pennaf, neu'r categori 'cryfaf' / 'uchaf'; roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallai hyn annog ysgolion i wneud cynnydd o ran gwella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Dadluedd rhai ymatebwyr o blaid defnyddio labeli priodol yn nodi cyfrwng disgwylid y ddarpariaeth yn hytrach na rhifau, er mwyn sicrhau bod y categorïau'n gliriach i randdeiliaid.

### (B) Cael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach?

Roedd dros draean yr ymatebwyr (38 o blith 95 neu 40 y cant) yn cytuno â chael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach, ac roedd dros draean (38 o blith 95 neu 40 y cant) yn anghytuno. Nododd tuag un rhan o bump (18 o blith 95 neu 19 y cant) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Ffigur 5. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â chael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach?'



N=95

Cyflwynodd cyfanswm o 25 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â chael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach.

Fel y trafodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn (gweler 'crynodeb o'r themâu trosfwaol' a'r canfyddiadau o Gwestiynau 2 a 3), defnyddiodd yr ymatebwyr y cyfle hwn i ailadrodd eu pryderon ynghylch y ffaith bod y categorïau arfaethedig yn rhy eang ac yn brin o fanylion. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r categorïau arfaethedig yn darparu digon o eglurder ynghylch natur y ddarpariaeth a'r deilliannau ieithyddol disgwylidig mewn ysgolion.

Ailadroddodd yr ymatebwyr eu pryderon ynghylch y categori arfaethedig ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (categori 3) hefyd. Roeddent yn anghytuno â'r trothwy canran isafswm arfaethedig ac ehangder dilynol yr ysgolion a fyddai'n cael eu rhoi yn yr un categori, ynghyd â nodi risg y byddai ysgolion yn gallu lleihau eu darpariaeth ond aros yn yr un categori.


Darparwyd rhai enghreifftiau o fanylion yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen eu cynnwys yn y categorïau, megis ystyried ethos ysgolion a gweithgareddau allgyrsiol, a chyfeirio at gamau dilyniant o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Cafwyd nifer fach o sylwadau cadarnhaol ynghylch manteision posibl y categorïau ehangach arfaethedig, gydag ymatebwyr yn nodi bod y categorïau arfaethedig yn gliriach na'r categorïau cyfredol.

### (C) Mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol i bob categori

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (52 o blith 92 neu 57 y cant) yn cytuno â rhoi mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol, tra bod ychydig dros chwarter (27 o blith 92 neu 29 y cant) yn anghytuno a chyfran fach (13 o blith 92 neu 14 y cant) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Ffigur 6. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â rhoi mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol i bob categori?'



N=92



Cyflwynodd cyfanswm o 7 ymatebydd sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â rhoi mwy o ffocws ar ddeilliannau ieithyddol.


Roedd rhai ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r cynnig i ganolbwyntio ar ddeilliannau ieithyddol, gan nodi y bydd y ffocws hwn yn cefnogi rhieni/gofalwyr i wneud penderfyniadau ac o gymorth i ysgolion i fod yn glir ynghylch eu pwrpas, a bydd yn angenrheidiol er mwyn i'r categorïau gefnogi dilyniant ieithyddol.

Gwnaeth rhai awgrymiadau ynghylch sut y gellid cryfhau'r ffocws ar ddeilliannau ieithyddol, gan nodi'n bennaf bod angen mwy o fanylion am ddeilliannau ieithyddol penodol (yn enwedig pan allai gwahanol garfannau o ddisgyblion fod yn manteisio ar ddarpariaeth wahanol mewn ysgol).

#### D) Cyflwyno is-gategorïau i hwyluso cyfnod trosiannol

Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (46 o blith 95 neu 48 y cant) yn cytuno â chyflwyno is-gategorïau i hwyluso cyfnod trosiannol, tra bod ychydig dros draean (33 o blith 95 neu 35 y cant) yn anghytuno a chyfran fach (15 o blith 95 neu 16 y cant) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Ffigur 7. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â chyflwyno is-gategorïau i hwyluso cyfnod trosiannol?'



N=95

Cyflwynodd cyfanswm o 15 ymatebydd sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â chyflwyno is-gategorïau i hwyluso cyfnod trosiannol.

Roedd y sylwadau a ddarparwyd mewn perthynas â'r is-gategorïau arfaethedig yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn nodi y byddai'r trefniadau trosiannol yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar drywydd pwrpasol.


*'Mae cyflwyno is-gategorïau ar gyfer ysgolion mewn cyfnod trosiannol i'w groesawu oherwydd mae'n egluro bwriad yr ysgol i gynyddu darpariaeth Gymraeg ac yn cydnabod yn ffurfiol lle mae'r ysgol ar y trywydd hwnnw. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r cyd-destun lleol.'*

Pwysleisiodd rhai hefyd y dylid ystyried ymhellach sut y byddai'r is-gategorïau'n cael eu gweithredu'n ymarferol. Er enghraifft, roedd ambell un o'r farn bod deng mlynedd yn gyfnod rhy hir i'w dreulio mewn categori trosiannol, a phwysleisiodd eraill y byddai angen cefnogaeth ddigonol ar ysgolion a staff i symud rhwng categorïau.

## (E) Dull o wahaniaethu rhwng categoreiddio darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd

Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr (42 o blith 94 neu 45 y cant) yn anghytuno â'r dull gwahaniaethu, tra bod ychydig dros draean (37 o blith 94 neu 39 y cant) yn cytuno a chyfran fach (15 o blith 94 neu 16 y cant) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

*Ffigur 8. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno â: chyflwyno is-gategoriâu i hwyluso cyfnod trosiannol?'*



N=94

Cyflwynodd cyfanswm o 22 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r dull gwahaniaethu.

Nododd rhai ymatebwyr effaith negyddol bosibl ar lwybrau dilyniant. Roedd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o wanhau llwybrau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Mynegodd yr ymatebwyr bryderon hefyd na fyddai'r gwahaniaethau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn glir i rieni, gan ei gwneud yn anodd ac yn ddryslyd nodi llwybr dilyniant ieithyddol priodol ar gyfer eu plentyn.

*'Mae'r hyn a gynigir o safbwynt gwahaniaethu rhwng categoreiddio ysgolion cynradd ac uwchradd hefyd yn codi cwestiynau o safbwynt cysondeb, eglurder a dilyniant. Mae dilyniant ieithyddol yn agwedd bwysig o'r CSGAau. Mae hyd at draean a rhagor o ddisgyblion rhai ardaloedd wedi bod yn troi o iaith gyntaf i ail iaith...Ydy'r diffiniadau yn cynnig ffordd ystyrlon o ymateb i hyn?'*

Holodd ambell ymatebydd hefyd a yw'r categorïau'n diwallu anghenion ysgolion pob oed, gan nodi y dylid ystyried ymhellach sut y mae'r categorïau'n diwallu eu hanghenion.

Pwysleisiodd rhai hefyd yn fwy cyffredinol y dylai'r categorïau ar gyfer y ddau sector fod yn gyson, gydag ymatebwyr yn nodi y dylai categorïau ysgolion uwchradd ddilyn yr un strwythur â chategoriâu ysgolion cynradd.

## Cwestiwn 5


Wrth gyfeirio at ganrannau yn y categorïau uwchradd, a ddylem gynnwys:

- (a) canran isafswm yn unig?
- (b) ystod canran isafswm ac uchafswm?

Roedd tua thraean yr ymatebwyr (30 o blith 89 neu 34 y cant) o'r farn y dylid cynnwys canran isafswm yn unig yn y categorïau uwchradd, roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (41 o blith 89 neu 46 y cant) yn anghytuno ac nid oedd un rhan o bump yn siŵr (18 o blith 89 neu 20 y cant).

Yn yr un modd, roedd tua thraean yr ymatebwyr (26 o blith 86 neu 30 y cant) o'r farn y dylid cynnwys canran isafswm ac uchafswm yn y categorïau uwchradd, tra bod ychydig yn llai na hanner (40 o blith 86 neu 47 y cant) yn anghytuno ac ychydig yn llai na chwarter (20 o blith 86 neu 23 y cant) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

*Ffigur 9. Ymatebion i'r cwestiwn: 'Wrth gyfeirio at ganrannau yn y categorïau uwchradd, a ddylem gynnwys: (a) canran isafswm yn unig? (b) ystod canran isafswm ac uchafswm?'*



*N = 89 (a), 86 (b)*

Cyflwynodd cyfanswm o 41 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nodir y themâu mwyaf cyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion hyn isod.

Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r ddau opsiwn a gyflwynwyd. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr hyn bryderon y byddai'r dull arfaethedig yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, tra bod eraill yn anghytuno â'r angen i flaenoriaethu categoreiddio cyfrwng iaith ysgolion yn gyffredinol.

Rhodddwyd rhai rhesymau pam y ffafriwyd **canran isafswm yn unig**. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n bennaf y byddai cynnwys canran uchafswm (yn ogystal ag isafswm) yn creu 'nenfwd artiffisial' ar gyfer faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gall ysgol ddewis ei chynnig. Nododd ambell ymatebydd hefyd y byddai canran uchafswm yn ddiangen gan fod y ganran isafswm yn y categori nesaf yn ateb yr un diben.

*'Ni ddylai darpariaeth Gymraeg gael uchafswm gan dylai'r neges fod yn gyson nad oes cap ar y cynnydd.'*

Rhodddwyd un rheswm yn benodol pam y ffafriwyd **canran isafswm yn ogystal â chanran uchafswm**; credai'r ymatebwyr y byddai cynnwys ystod o'r fath yn uchelgeisiol, gan annog ysgolion i symud y tu hwnt i'r ganran isafswm yn hytrach na chynnal darpariaeth ar lefel y trothwy.

*'Drwy ddiffinio canran isafswm [yn unig], nid yw'n annog yr holl randdeiliaid i anelu at ddatblygu neu gynyddu canran y dysgwyr sy'n dilyn meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai cyfeirio at ganrannau isafswm ac uchafswm yn annog ysgolion i anelu at gyrraedd targed uchelgeisiol a fyddai'n cyd-fynd â'r CSCA. '*

Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle hwn hefyd i dynnu sylw at bryderon ac awgrymu diwygiadau i'r dull canran arfaethedig.


- Fe wnaethant ailadrodd eu pryderon ynghylch y ganran trothwy isel ar gyfer y categori cyfrwng Cymraeg uwchradd (categori 3).
- Fe wnaethant nodi bod angen diwygio'r canrannau sy'n diffinio darpariaeth categori 1 neu 2 (er enghraifft ei gwneud yn ofynnol i o leiaf 20 y cant o'r cwricwlwm gael ei addysgu yn Gymraeg mewn ysgolion categori 1, yn hytrach na 10 y cant) neu bod angen diwygio'r geiriad sy'n disgrifio'r cydbwysedd rhwng darpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.
- Fe wnaethant nodi ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth gyfrifo'r canrannau, yn enwedig cyfrwng iaith cymwysterau yn hytrach na phynciau.
- Fe wnaethant ofyn am arweiniad pellach neu ystyriaeth o sut y byddai'r cynigion yn cael eu gweithredu yn ymarferol.

## Cwestiwn 6

A oes angen i ni gyhoeddi canllawiau ychwanegol wedi'u teilwra tuag at grwpiau penodol, er enghraifft ysgolion a rhieni/gofalwyr yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau hyn yn derfynol?

'Oes' oedd ateb tri chwarter yr ymatebwyr (71 o blith 95 neu 75 y cant) pan ofynnwyd a oedd angen cyhoeddi canllawiau ychwanegol ai peidio. Dywedodd nifer fach (8 o blith 95 neu 8 y cant) nad oeddent yn siŵr a 'nac oes' oedd ateb 16 o blith 95 (17 y cant).

*Ffigur 10. Ymatebion i'r cwestiwn: 'A oes angen i ni gyhoeddi canllawiau ychwanegol wedi'u teilwra tuag at grwpiau penodol, er enghraifft ysgolion a rhieni/gofalwyr yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau hyn yn derfynol?'*



N=95

Cyflwynodd cyfanswm o 42 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda thua chwarter y rhain ond yn darparu sylw cyffredinol yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu canllawiau wedi'u teilwra ymhellach. Dywedodd rhai y byddai angen canllawiau ychwanegol maes o law yn sicr, ond bod angen gwaith pellach ar y categorïddio arfaethedig yn gyntaf.

*'Cytunwn gyda'r egwyddor y byddai canllaw (iau) ychwanegol maes o law yn ddefnyddiol i ddarparu'r manylion angenrheidiol. Ond nid yn seiliedig ar y diffiniadau presennol, yn anffodus.'*

Rhoddodd yr ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer cynnwys a/neu ymddangosiad unrhyw ganllawiau ychwanegol a ddatblygwyd. Roedd rhai o'r sylwadau hyn yn adleisio ymatebion a wnaed i gwestiynau eraill (e.e. cwestiwn 3). Ymysg yr awgrymiadau ynghylch y cynnwys roedd defnyddio astudiaethau achos darluniadol, disgrifiadau cryno, esboniadau o ddeilliannau ieithyddol a manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Cynigiodd yr ymatebwyr y dylid defnyddio ffeithluniau a chyfryngau digidol i gyfathrebu unrhyw ganllawiau a ddatblygir i wahanol gynulleidfaoedd.

Argymhellodd yr ymatebwyr y dylid paratoi fersiynau o'r canllawiau sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc, darparwyr AGA ac ar gyfer llywodraethwyr yn ogystal ag at yr ysgolion a'r rhieni a enwir yn y cwestiwn. Gwnaeth nifer fach o ymatebwyr sylwadau ar yr angen i deilwra'r canllawiau i ystyried amrywiadau ym mhroffil ieithyddol ardaloedd lleol, a phwysleisiodd eraill bod gwybodaeth gyson ledled Cymru yn hanfodol.

## Cwestiwn 7

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cyflwynodd cyfanswm o 74 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nodir y themâu mwyaf cyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion hyn isod.

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar faterion ehangach yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhain yn cynnwys eu barn ar bwysigrwydd:

- cynyddu'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael;
- cynyddu'r ddarpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg sydd ar gael;
- cynyddu'r llwybrau ôl-16 cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr;
- darparu mwy o hyfforddiant Cymraeg i ymarferwyr i helpu i gynyddu'r cyflenwad o ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

*'Rydym yn teimlo y bydd yn codi dyheadau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd beunyddiol, ac yn annog darpariaeth fwy cyfartal mewn ysgolion. Gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol drwy fynediad at gyllid digonol ar gyfer hyfforddiant i athrawon a staff eraill yr ysgol ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg lle mae angen hyn. Byddai hyn yn cynnwys darpariaeth blynnyddoedd cynnar oherwydd y cynharaf y caiff y Gymraeg ei defnyddio fel iaith dysgu a chyfathrebu, y mwyaf di-dor fydd y broses drochi yn y Cyfnod Sylfaen.'*

Dywedodd yr ymatebwyr y byddai'r cynigion yn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a gweld gwerth yr iaith. Mynegodd rhai eu bod yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion ond ni wnaethant sylwadau ar eu heffaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

*'Mae'r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, wrth i ysgolion gymryd camau tuag at gynyddu'r ddarpariaeth. Byddai cynnydd yn y ddarpariaeth yn darparu mwy o gyfleoedd i rieni a'r gymuned ehangach ymgysylltu'n fwy â'r Gymraeg drwy ei ehangu mewn ysgolion lleol.'*

Teimlai ymatebwyr eraill mai effaith gyfyngedig fyddai'r cynigion yn eu cael ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg oni bai eu bod yn cael eu cryfhau. Rhoddodd rhai enghreifftiau o ffyrdd y gellid eu cryfhau, megis cynnwys mwy o ffocws ar ddeilliannau ieithyddol ac ethos Gymraeg ysgolion.

Ailbwysleisiodd rhai ymatebwyr bryderon yr oeddent wedi'u codi mewn ymatebion i gwestiynau blaenorol am y categorïau arfaethedig, gan nodi y gallai fod effaith negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg pe na bai'r rhain yn cael sylw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- risg ganfyddedig y gallai'r categorïau arwain at rai ysgolion yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg y maent yn ei chynnig;
- bod y categorïau yn rhy eang;
- sylwadau penodol ar y trothwyon ar gyfer rhai o'r categorïau;

- bod y cynigion yn dibynnu ar ymrwymiad staff a chyrrff llywodraethu i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Dyweddodd rhai ymatebwyr y byddai'r cynigion yn helpu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwnaeth ambell un sylwadau mwy cyffredinol ar bwysigrwydd yr egwyddor hon a ffactorau a allai ddylanwadu ar p'un a fyddai'r cynigion yn deg ai peidio (e.e. argaeledd hyfforddiant).

*'Mae'n hanfodol bod darpariaeth gyfartal yn y ddwy iaith ac y dylai'r ddarpariaeth adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgol a'i dalgylch. Mae angen sicrhau bod hyfforddiant ar gael i aelodau'r proffesiwn addysg i sicrhau bod nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn cael ei gyrraedd.'*

Cododd eraill bryderon ynghylch pa mor deg oedd y cynigion, gan roi sylwadau ar bwysigrwydd parhau i gynnig cyfle i deuluoedd ddewis darpariaeth addysg cyfrwng Saesneg. Ailbwysleisiodd ymatebwyr eraill bryderon neu anghytundeb mwy cyffredinol â'r cynigion, gan nodi na ddylai adolygu'r polisi fod yn flaenoriaeth.

## Cwestiwn 8

Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y canllaw arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- i) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Cyflwynodd cyfanswm o 60 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Defnyddiodd llawer o'r rhain y cwestiwn hwn i ailadrodd neu grynhoi pwyntiau a godwyd mewn adrannau blaenorol, yn enwedig y pwyntiau hynny a wnaed eisoes ynghylch y dull o gategoreiddio ysgolion uwchradd a'r angen i ganolbwyntio ar ethos ysgolion. Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr rannu eu hateb yn ôl (i) effeithiau cadarnhaol a (ii) dim effeithiau andwyol.

Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid diwygio'r polisi i ystyried rolau ysgolion o ran hyrwyddo a chefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Awgrymwyd y gallai rhoi mwy o amlygrwydd i'r agwedd hon ar weithgaredd ysgolion yn y polisi gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Ymhlith yr enghreifftiau o faterion yr awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cyfeirio atynt yn y polisi roedd:

- mynd i'r afael ag agweddau rhieni a'r gymuned tuag at ddefnyddio Cymraeg;
- cydnabod pwysigrwydd *Siarter Iaith a Cymraeg Campus*<sup>4</sup>;
- darparu cyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg a/neu ymarfer eu Cymraeg; a
- sicrhau bod y canllawiau'n cynnwys trefniadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gweithgareddau allgyrsiol.

Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, ailadroddodd rhai ymatebwyr eu pryderon nad oedd digon o ffocws ar ethos ysgolion yn y cynigion (gweler yr atebion i gwestiynau 2 a 4). Nododd yr ymatebwyr hefyd y dylai'r canllawiau gael eu cysylltu â deunyddiau ac ymgyrchoedd gyda'r nod o hyrwyddo ac egluro manteision addysg cyfrwng Cymru i rieni.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon y byddai'r effeithiau cadarnhaol posibl yn cael eu cyfyngu heb hyfforddiant a chyllid digonol i gefnogi newidiadau. Ar y thema hyfforddiant, gwnaeth yr ymatebwyr argymhellion i ymestyn a chryfhau cynllun sabothol y Gymraeg, ac i annog defnyddio cyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg y staff presennol. Awgrymwyd y dylid cynnal archwiliad o sgiliau Cymraeg ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion ac sy'n eu cefnogi, nid dim ond ar gyfer athrawon. Awgrymwyd y gallai'r math hwn o archwiliad sgiliau helpu i:

- nodi pa sgiliau sydd eisoes ar gael a lle mae bylchau;
- nodi lle mae angen buddsoddiad ychwanegol i gefnogi'r polisi arfaethedig;
- bod yn sail i waith mwy cadarn o ran cynllunio'r gweithlu.

Nododd yr ymatebwyr hefyd awgrymiadau ar sut i ehangu'r gweithlu addysgu, o'r cam cyn-ysgol ymlaen. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer denu newydd-ddyfodiaid i'r sector, ehangu cyrsiau i gynyddu hyder y staff presennol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a denu siaradwyr Cymraeg o broffesiynau eraill i ymgymryd â chymwysterau addysgu Cymraeg a chymwysterau galwedigaethol ar gyfer gweithio mewn lleoliadau cyn-ysgol.

<sup>4</sup> Mae Siarter Iaith a Cymraeg Campus yn rhan o Siarter y Gymraeg, prosiect i annog defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.



Esboniodd rhai ymatebwyr fod angen hyblygrwydd yn y canllawiau, gan gynnwys rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymestyn terfynau amser lle mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud o ran cynyddu darpariaeth Gymraeg, yn enwedig i gynorthwyo gyda chynllunio tymor hwy ac osgoi canlyniadau negyddol anfwriadol.

*'Mae angen i'r canllawiau ddarparu hyblygrwydd ar gyfer y math o gynllunio clwstwr tymor hwy er mwyn trosglwyddo o T1 i ddwyieithog. Fel arall, gallai clwstwr fod wedi treulio 8 mlynedd yn dyblu neu'n treblu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy ddull clwstwr gwirioneddol drawsnewidiol, dim ond i'r ysgol uwchradd gael ergyd ariannol drom drwy fethu â chyrraedd y categori dwyieithog o drwch blewyn o fewn y terfyn amser 10 mlynedd.'*

Ymysg y pwyntiau eraill a godwyd gan nifer fach o ymatebwyr roedd yr angen i ganolbwyntio ar ddeilliannau, a'r angen i wirio'r hyn a gynnigir gan ysgolion a chraffu ar hynny.

## Cwestiwn 9

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Cyflwynodd cyfanswm o 49 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i ailddatgan eu barn ar y cynigion, gyda rhai yn codi ystyriaethau ychwanegol. Mae'r themâu a godwyd amlaf gan yr ymatebwyr wedi'u nodi isod.

Ailadroddodd yr ymatebwyr nifer o faterion neu bryderon yn ymwneud â'r cynigion yr oeddent wedi'u codi mewn ymatebion cynharach. Esboniodd yr ymatebwyr hyn pam yr oeddent yn anghytuno â'r cynigion categoreiddio, neu pam eu bod yn teimlo na fyddent yn effeithiol. Roedd y pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr hyn yn ymwneud yn bennaf â'r categorïau arfaethedig ar gyfer ysgolion uwchradd, gydag ambell ymatebydd yn nodi eu bod yn teimlo y gallai fod risg y byddai ysgolion yn lleihau lefelau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg oherwydd bod y categorïau, yn eu barn hwy, yn rhy eang.

Cododd yr ymatebwyr faterion ehangach yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn arbennig bryderon ynghylch:

- sicrhau cyllid digonol ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- argaeledd athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- yr angen i hyfforddi'r gweithlu er mwyn cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- darparu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- sicrhau dilyniant rhwng cyfnodau allweddol;
- sut y gallai'r ffactorau uchod effeithio ar p'un a fydd y strategaeth *Cymraeg 2050* yn llwyddiannus.

Credai rhai ymatebwyr a gododd y materion uchod y byddai angen adolygu deddfwriaeth addysg arall i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r polisi categoreiddio ysgolion.<sup>5</sup>

Ailadroddodd yr ymatebwyr eu hawydd am wybodaeth ychwanegol i ddarparu eglurder ynghylch y categorïau. Teimlai rhai ymatebwyr y dylid gosod y categorïau arfaethedig ar sylfaen statudol gan ofyn pa bartion perthnasol fyddai'n gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau lleol ar gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Teimlai rhai ymatebwyr fod angen rhoi trefniadau monitro cadarn ar waith ochr yn ochr â'r polisi.

*'Rhaid hefyd sicrhau bod yna systemau monitro cyson a chadarn yn cael eu gosod fel rhan o'r canllawiau hyn. Bydd angen sicrhau bod y data sy'n cael ei adrodd yn glir ac yn cael ei adrodd mewn ffordd sydd yn hwyluso cymharu datblygiadau ar draws Cymru'*

Ailddatganodd yr ymatebwyr eu cefnogaeth i gatedoreiddio a'u cefnogaeth i'r cynigion, yn enwedig y categorïau ysgolion cynradd arfaethedig. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar yr angen am rywfaint o hyblygrwydd i ystyried amrywiadau lleol mewn modelau darpariaeth a gwahaniaethau ym mhroffil dysgwyr a theuluoedd. Cododd rhai bryderon y gallai gweithredu'r categorïau heb hyblygrwydd o'r fath arwain at ganlyniadau anfwriadol (e.e. ysgolion uwchradd a oedd yn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o linell sylfaen isel

<sup>5</sup> Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd gan ymatebwyr roedd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

yn dod yn anghymwys i gael cyllid pe byddent yn methu â chyrraedd trothwyon targed o drwch blewyn).

Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylid oedi cyn gweithredu'r cynigion er mwyn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar adfer o'r pandemig Covid-19.